# Adroddiad Blynyddol y Grŵp Trawsbleidiol

# 15fed Chwefror 2019

# Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru

1. **Aelodaeth y Grŵp a deiliaid swyddi ar gyfer 2019/20**

**Cadeirydd:** **Llyr Gruffydd AC**

**Is-gadeiryddion:** **Mark Isherwood AC ac Ann Jones AC**

**Aelodau:** **(Gwahoddir yr aelodau i fynychu pob cyfarfod)**

**Sian Gwenllian, Rhun ap Iorwerth, Janet Finch-Saunders, Darren Millar, Hannah Blythyn, Jack Sargeant, Lesley Griffiths, Ken Skates, Dafydd Elis Thomas, Mandy Jones, Michelle Brown**

**Ysgrifennydd: Stephen Jones, Cydlynydd Rhanbarthol Gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

2. **Cyfarfodydd Grŵp blaenorol ers y Cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf**

Cynhaliwyd y Cyfarfod cyffredinol ar 27ain Chwefror 2018. Cynhwyswyd costau Cyfarfod blynyddol 2018 a'r gweithgareddau yn Adroddiad Blynyddol 2018.

**Cyfarfod 1.**

***Dyddiad y cyfarfod:*** **11eg Mehefin 2018 – Briff ar Growth Track 360**

**(Lleoliad: Tŷ Hywel Caerdydd)**

***Yn bresennol:***
Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd), Mark Isherwood AC, Ken Skates AC, Hannah Blythyn AC

Tim Peppin a Stephen Jones (CLlLC)

Tasglu Rheilffyrdd Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy (GT360: Cyng. Samantha Dixon (Cadeirydd, GT360), Cyng. Liam Robinson (Cadeirydd, Merseytravel a GT360)

Mynychodd y Cyng Patrick Heesom (Sir y Fflint) fel gwestai i Mark Isherwood.

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***
Rhoddodd Ken Skates gyflwyniad ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y rheilffyrdd yng Ngogledd Cymru gan gynnwys y gwelliannau a geisir drwy gyfrwng Masnachfraint Rheilffyrdd newydd Cymru a'r Gororau.

Rhoddodd Growth Track 360 gyflwyniad ar eu hymgyrchoedd i wella cysylltedd rheilffyrdd Gogledd Cymru a daearyddiaeth Mersi a'r Ddyfrdwy gan gynnwys Hwb yn Crewe ar gyfer HS2 a gwaith â Transport for the North (TfN) ar ddiffinio gwelliannau ar gyfer Coridor Cymru a'r Gorllewin yng nghynlluniau strategol TfN.

**Cyfarfod 2:**

***Dyddiad y cyfarfod:*** **22ain Mehefin 2018 – Lansiad Cyhoeddus y Grŵp Trawsbleidiol yng Ngogledd Cymru (Lleoliad: Optic – Glyndwr, Llanelwy)**

***Yn bresennol:***

<u>Aelodau'r Cynulliad</u>
Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd), Mark Isherwood AC, Ann Jones AC, Steve Ellison (Swyddfa Ann Jones, Ken Skates AC, Sian Gwenllian AC, Dr. Clare Eno (dros Mandy Jones) David Humphreys (dros Hannah Blythyn AC) a Stephen Jones (CLlLC)

<u>Partneriaid (Grŵp Hollbleidiol Seneddol San Steffan, Cynghorau ac Arweinyddion Busnes)</u>

Ian Lucas AS a David Rix (Swyddfa Ian Lucas), Chris Ruane AS a Liz Savile Roberts AS (Grŵp Hollbleidiol Seneddol Mersi a'r Ddyfrdwy a Gogledd Cymru)

Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Gwynedd), Cynghorydd Mark Pritchard (Wrecsam), Cynghorydd Llinos Medi Huws, Cynghorydd Julian Thompson Hill ac Iwan Trefor Jones (BUEGC)

Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy, David Jones (CBI/Parth Menter Glannau Dyfrdwy)

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***
Trafododd y cyfarfod ddiben y Grŵp a chydweithio â phartneriaid (Cynghorau a'r Grŵp Hollbleidiol Seneddol) i fwrw ymlaen flaenoriaethau'r Grŵp ar gyfer yr economi a thrafnidiaeth. Cafwyd diweddariadau ar Fid Twf Gogledd Cymru a'r cyfleoedd i ddatblygu economi Gogledd Cymru gan Gadeirydd y Grŵp

Hollbleidiol Seneddol, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Economi a Thrafnidiaeth ac Arweinwyr Busnes.

Cafodd y cyfarfod sylw gan y wasg mewn ymateb i ddatganiad i'r wasg a chyfweliadau a roddwyd i'r wasg drwy gyfarfod â chyfranogwyr.

<u>**Cyfarfod 3.**</u>

***Dyddiad y cyfarfod:*** **13eg Gorffennaf 2018 -Briff gan Barthau Menter Gogledd Cymru a Chyngor Busnes Gogledd Cymru Mersi a'r Ddyfrdwy (Lleoliad y cyfarfod - Optic Glyndwr, Llanelwy)**

***Yn bresennol:***
Aelodau'r Cynulliad: Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd), Mark Isherwood AC, cynrychiolwyr Llyr Gruffydd AC ac Ann Jones AC (Jason McLellan) a Stephen Jones (CLlLC)

Arweinyddion Cynghorwyr: Mark Pritchard (Wrecsam), Gareth Jones (Conwy) a Julian Thompson Hill (Sir Ddinbych)

<u>Siaradwyr:</u> Ashley Rogers (Cyngor Busnes Gogledd Cymru Mersi a'r Ddyfrdwy, David Jones OBE (CBI/DEZ), yr Athro Sian Hope (Parthau Menter Eryri a Môn)

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***
Trafododd y cyfarfod y cyfleoedd ar gyfer twf i'r sector preifat yng Ngogledd Cymru a'r ymyraethau polisi i gefnogi'r nod hwnnw.

Fel rhan o'r cyfarfod cafwyd briffiau ar waith Parthau Menter Dyfrdwy, Môn ac Eryri.

<u>**Cyfarfod 4.**</u>

***Dyddiad y cyfarfod:*** **17eg Hydref 2018 -Gwella Trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru (Lleoliad y cyfarfod: Rhuthun, Gogledd Cymru)**

***Yn bresennol:***
Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd), Mark Isherwood AC, Sian Gwenllian AC, Darren Millar AC (rhan), Eluned Morgan AC (rhan), Brett John (Swyddog i Llyr Gruffydd AC),

Tim Peppin a Stephen Jones (CLlLC)

<u>Siaradwyr:</u> Dewi Rowlands, Llywodraeth Cymru, Simon Lander, Trafnidiaeth Cymru ac Iwan Prys Jones, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***

Trafododd y cyfarfod y cyd-destun polisi cenedlaethol ar gyfer gwella trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru drwy gyfrwng briff gan Lywodraeth Cymru ynghyd â diweddariadau gan gyrff cyflawni fel Trafnidiaeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol a gynrychiolir gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Ymysg y testunau a drafodwyd yr oedd materion polisi, buddsoddi a chyflawni o safbwynt bysys, rheilffyrdd a ffyrdd.

**Cyfarfod 5.**
***Dyddiad y cyfarfod:*** **30ain Tachwedd 2018, Cyfleoedd Economaidd Trawsffiniol**

***Yn bresennol:***
Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd), Mark Isherwood AC, cynrychiolydd Michelle Brown AC (Chrissie Gee) a Stephen Jones (CLlLC), Cynghorydd Marc Jones (Wrecsam) a Mabon ap Gwynfor, Swyddfa Llyr Gruffydd AC

Siaradwyr: Iwan Trefor Jones (Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Charlie Seward (Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy), Emma Wynne (Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy)

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***

Rhoddodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy gyflwyniad i'r cyfarfod ar gyfleoedd trawsffiniol i sicrhau twf economaidd yng Ngogledd Cymru drwy feithrin cysylltiadau economaidd agosach â gogledd-orllewin Lloegr, Iwerddon a chanolbarth Cymru.

**Cyfarfod 6: Cyfarfod cyffredinol blynyddol, 15fed Chwefror 2019 (Lleoliad: Optic Glyndwr, Llanelwy)**

***Yn bresennol:***
Llyr Gruffydd AC, Daren Millar AC, Ann Jones AC, Jason McLellan (Swyddfa Ann Jones AC), Cynrychiolydd o Swyddfa Rhun ap Iorwerth AC a Stephen Jones (Ysgrifennydd)
Siaradwyr: Cynghorydd Aaron Shotton (Cadeirydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) ) ac Iwan Trefor Jones, (Cyfarwyddwr Arweiniol BUEGC)

***Crynodeb o'r materion a drafodwyd:***
Ail-etholwyd swyddogion y Grŵp (a fu'n gwasanaethu yn 2018/19) yn y cyfarfod, a chafwyd diweddariad ar Fid Twf y Gogledd gan y Cyng. Shotton ac Iwan Trefor Jones. Trafodwyd hefyd destunau ar gyfer cyfarfodydd i'r dyfodol.

**3. Lobïwyr proffesiynol, mudiadau gwirfoddol ac elusennau y mae'r Grŵp wedi cyfarfod â nhw yn ystod y flwyddyn flaenorol.**

Ni chafodd y Grŵp ddim cysylltiad â lobïwyr proffesiynol. Cyfarfu'r grŵp gynrychiolwyr o: -

- Lywodraeth Cymru,
- Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Grŵp Hollbleidiol Seneddol Mersi a'r Ddyfrdwy a Gogledd Cymru
- Tasglu Rheilffyrdd Gogledd Cymru a Mersi (Growth Track 360)
- Cyngor Busnes Gogledd Cymru Mersi a'r Ddyfrdwy
- Parthau Menter Dyfrdwy, Môn ac Eryri
- Trafnidiaeth Cymru
- Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy
- Arweinyddion Cynghorau Awdurdodau lleol Gogledd Cymru

# Datganiad Ariannol Blynyddol.

## 15fed Chwefror 2019

## Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru

### Llyr Gruffydd AC

### Stephen Jones, Cydlynydd Rhanbarthol Gogledd Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

| | | |
|---|---|---|
| **Treuliau'r Grŵp** | Dim | £0.00 |
| **Costau'r holl nwyddau.** | Ni phrynwyd dim nwyddau. | £0.00 |
| **Buddion a gafodd y grŵp neu Aelodau unigol gan gyrff allanol.** | Ni ddaeth dim buddion i law. | £0.00 |
| **Unrhyw gostau ysgrifenyddiaeth neu gefnogaeth arall.** | a) Cyfieithu Dogfennau'r Grŵp i'r Gymraeg; CLlLC sy'n comisiynu hyn ac yn talu amdano.<br>b) Gwasanaeth Cyfieithu ar y pryd i gyfarfodydd a gynhelir yng Ngogledd Cymru; CLlLC sy'n comisiynu hyn ac yn talu amdano | £950<br><br>£707.40<br><br>(Cyfanswm £1657.74) |

**Gwasanaethau a ddarparwyd i'r Grŵp megis lletygarwch.**

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn talu'r holl gostau am hurio ystafelloedd ac am luniaeth (£1446.55)

| **Dyddiad** | **Disgrifiad ac enw'r darparwr** | **Cost** |
|---|---|---|
| 11eg Mehefin 2018<br><br>(Tŷ Hywel) | Arlwywyr y Cynulliad (Arlwyo yn unig)<br><br>(Heb gynnwys TAW) | £168.00 |
| 22ain Mehefin 2018<br><br>(Optic – Glyndwr, Llanelwy) | Arlwyo a Llogi Ystafell<br><br>(Heb gynnwys TAW) | £450.00 |
| 13eg Gorffennaf 2018<br><br>(Optic – Glyndwr, Llanelwy) | Arlwyo a Llogi Ystafell<br><br>(Heb gynnwys TAW) | £387.45 |
| 17eg Hydref 2018<br><br>(Tŷ Hywel) | Arlwywyr y Cynulliad (Arlwyo yn unig)<br><br>(Heb gynnwys TAW) | £106.10 |
| 30ain Tachwedd 2018<br><br>(Swyddfeydd Llyr Gruffydd AC, Rhuthun) | Arlwywyr Cyngor Sir Ddinbych (Arlwyo yn unig)<br><br>(Heb gynnwys TAW) | 95.00 |
| 15fed Chwefror 2019 Cyfarfod blynyddol<br><br>(Optic – Glyndwr, Llanelwy) | Arlwyo a Llogi Ystafell<br><br>(Heb gynnwys TAW) | **Amcangyfrif**<br><br>£240 |
| **Cyfanswm am Gyfieithu, Llogi Ystafelloedd ac Arlwyo** | | **£3104.29** |